**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 14eg Mehefin 2017**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Ifan Lloyd | |
| Jo Price | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |
| Abi Reader | |
| Paula Boyden (Wedi ymuno drwy ddulliau telegynadledda) | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Filfeddyg |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Filfeddyg |

Sarah Lewis a Mike Howe, Lantra (Eitem 5 )

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Paul Critchley | Swyddfa'r Prif Filfeddyg |

**<u>Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i ddeuddegfed cyfarfod y Grŵp. Llongyfarchodd Abi a Paula ar gael eu penodi i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

2. Eglurodd fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Paul Critchley, Pennaeth newydd Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, y tîm Cyllid a Strategaeth yn Swyddfa'r Prif Filfeddyg. Eglurodd y Cadeirydd y byddai Sarah Lewis a Mike Howe (Lantra) yn ymuno â'r cyfarfod i drafod papur y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefydau Anifeiliaid (NADIS), ac i roi cyflwyniad manylach am eu gwaith.

**<u>Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion Cyfarfod 15fed Rhagfyr a'r Pwyntiau Gweithredu</u>**

3. Eglurodd y Cadeirydd fod y cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu diweddaraf ar gyfer y cyfarfod diwethaf wedi cael eu hanfon dros e-bost at Aelodau'r Grŵp ym mis Tachwedd, fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

4. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

**<u>Eitem 3 ar yr Agenda: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd</u>**

5. Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf ganlynol;

**a) Yr wybodaeth ddiweddaraf am Gyfarfod y Pedwar Cadeirydd**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yng Nghyfarfod y Pedwar Cadeirydd ar 25ain Ebrill yn Llundain. Y prif fater a drafodwyd oedd Gadael yr UE, a'r golygiadau i iechyd a lles anifeiliaid. Cytunodd y Grŵp ei bod yn hollbwysig eu bod yn parhau i gydweithio ar y mater hwn wrth symud ymlaen. Roedd y materion eraill a drafodwyd yn cynnwys Gorfodaeth, Dyfodol Da Byw ac Adnabod Da Byw. Eglurodd Christianne y strwythur sydd ar waith i ddelio â Gadael yr UE ac i gydweithio â DEFRA. Cadarnhaodd fod Gadael yr UE yn eitem sefydlog ar yr agenda erbyn hyn yng nghyfarfodydd misol y Prif Swyddogion Milfeddygol sy'n cynrychioli Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**b) Adborth gan Is-grŵp Strategaeth Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yng Nghyfarfod Is-grŵp Strategaeth Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru ar 19eg Ebrill. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar y Gweithdy Strategaeth Amaethyddiaeth. Cadarnhaodd Ifan ei fod wedi bod yn y cyfarfod hwn ym mis Mawrth. Yng nghyswllt hynny, eglurodd y Cadeirydd y sefyllfa ddiweddaraf hefyd o ran gwneud cais am gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer y Cynllun Dileu BVD. Mynegodd y Grŵp bryder ynghylch faint o amser mae'n ei gymryd i gael gwybod beth yw canlyniad y broses ymgeisio. Mynegwyd pryder hefyd am y broses ymgeisio, a'i bod yn bwysig deall y broses hon wrth wneud unrhyw geisiadau yn y dyfodol. Cytunodd y Grŵp i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cais ar gyfer y Cynllun Dileu BVD ac i ofyn am eglurhad o'r broses ymgeisio.

***Pwynt Gweithredu 1 > Cytunodd y Grŵp i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cais ar gyfer y Cynllun Dileu BVD ac i ofyn am eglurhad o'r broses ymgeisio.***

**c) Cyfarfod Cynllunio Iechyd Anifeiliaid ar 18fed Mai – Moss**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr is-grŵp Cynllunio Iechyd Anifeiliaid wedi cael ei sefydlu erbyn hyn, a'i fod wedi cael cyfarfod ar 18fed Mai. Eglurodd mai Moss oedd wedi cadeirio'r cyfarfod. Eglurodd eu bod wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl yr is-grŵp, ac y byddent yn bwrw ymlaen â'r gwaith dros y misoedd nesaf. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried y Model Segmentu Ffermwyr.

**d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am Brexit – Yr aelodau**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gytuno i eistedd ar Weithgorau Bwrdd Crwn yr UE, a chadarnhaodd pwy oedd wedi cytuno i eistedd ar bob Grŵp. Dyma'r rhestr a gytunwyd;

- Y Gweithgor Deddfwriaeth a Rheoleiddio – Moss
- Y Gweithgor Masnach a Chadwyni Cyflenwi – Dai
- Y Gweithgor Rheoli Tir – Peredur
- Y Gweithgor Tystiolaeth a Senarios – Ifan

Roedd Ifan wedi bod yng nghyfarfod y Gweithgor Tystiolaeth a Senarios yng Nghaerfyrddin ar 12fed Mai. Eglurodd ei fod wedi bod yn gyfarfod defnyddiol iawn, a chytunodd i rannu'r papur tystiolaeth â'r Grŵp. Argymhellodd hefyd fod y Grŵp yn darllen adroddiad Cymdeithas Milfeddygon Prydain ynghylch Gadael yr UE. Argymhellodd Christianne fod y Grŵp hefyd yn edrych ar bapur yr Arglwydd Trees ar oblygiadau Brexit i ddarparu gwasanaethau milfeddygol.

**Pwynt Gweithredu 2 > Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhannu'r papur tystiolaeth, adroddiad Cymdeithas Milfeddygon Prydain ac adroddiad yr Arglwydd Trees ag aelodau'r Grŵp.**

Cytunodd y Grŵp fod darlun cymhleth o grwpiau sydd naill ai ar waith, newydd gael eu ffurfio neu wrthi'n cael eu datblygu. Cytunwyd y byddai'n bwysig deall y strwythurau llywodraethu sy'n cael eu sefydlu.

***Pwynt Gweithredu 3 > Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn anfon organogram o'r strwythur llywodraethu ar gyfer Gadael yr UE ymlaen i'r Grŵp.***

Bu'r Grŵp hefyd yn trafod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Grwpiau Iechyd a Lles Defaid a Gwartheg. Bydd dyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Lles Defaid yn cael eu rhannu unwaith eto, a bydd yr aelodau'n ystyried pwy ddylai eu mynychu gan fod Huw Davies wedi gadael y Grŵp erbyn hyn.

Gan ei bod yn rhaid i'r Grŵp fynychu nifer o gyfarfodydd erbyn hyn, cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i lunio Blaengynllun a fyddai'n cynnwys pob cyfarfod sydd i ddod.

***Pwynt Gweithredu 4 > Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn llunio Blaengynllun ar gyfer cyfarfodydd.***

**<u>Eitem 4 ar yr Agenda: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Christianne</u>**

6. Rhoddodd Christianne yr wybodaeth ddiweddaraf ganlynol;

- **Ffliw Adar**
  Mae'r gwaith i ddelio â'r achosion o ffliw adar yn dal i fynd rhagddo. Mae'r trafodaethau'n canolbwyntio nawr ar sut mae delio â'r clefyd wrth symud ymlaen. Y prif bryder fyddai unrhyw straen arall o'r clefyd sy'n heintus i bobl. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i weithio gyda'r diwydiant i lunio Cod Ymarfer ar gyfer glanhau a diheintio.

- **Tafod Glas**

Mae BTv8 yn lledaenu yn Ffrainc. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r asesiad risg ar gyfer y DU. Mae'n bwysig sicrhau bod negeseuon priodol yn cael eu cyfleu i'r diwydiant. Gofynnodd Christianne i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru gyflwyno'u safbwyntiau ar negeseuon allweddol.

***Pwynt Gweithredu 5 > Bydd aelodau'r Grŵp yn cyflwyno'u safbwyntiau i'r Ysgrifenyddiaeth ar negeseuon y gellid eu cyfleu i'r diwydiant ynghylch Tafod Glas.***

- **Unedau Cwarantîn**
  Mae'r dyddiad dod i rym wedi'i gadarnhau erbyn hyn, sef 11eg Medi.

- **TB Buchol**
  Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gwneud datganiad am Ddileu TB Buchol ar 20fed Mehefin.

- **Codau Ymarfer ar Les Anifeiliaid**
  Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo i adolygu a diweddaru'r Codau Ymarfer ar Les Anifeiliaid. Bydd ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ym maes Ceffylau yn cael ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru. Yn dilyn hynny bydd ymgynghoriadau ar y codau ymarfer ar les ieir bwyta ac ieir dodwy.

- **Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid**
  Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ymgynghoriad cyhoeddus ar Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid.

- **Cofrestr Cam-drin Anifeiliaid**
  Mae hon yn broblem sy'n dod i'r amlwg. Mae'r RSPCA wedi cytuno i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried hyn ac opsiynau ar gyfer sefydlu cofrestr i Gymru.

**<u>Eitem 5 ar yr Agenda: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Cyswllt Ffermio ar bapur y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefydau Anifeiliaid – Sarah Lewis a Mike Howe</u>**

7. Croesawodd y Cadeirydd Sarah Lewis a Mike Howe o Lantra. Aethant ati i roi cyflwyniad ar waith y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefydau Anifeiliaid, gan ofyn am gefnogaeth y Grŵp i'w dull o gydweithio â Cyswllt Ffermio.

8. Diolchodd y Cadeirydd i Mike a Sarah am eu cyflwyniad diddorol. Cadarnhaodd y Grŵp eu bod yn fodlon cefnogi dull y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefydau Anifeiliaid a Lantra. Cadarnhaodd Carol fod gan Cyswllt Ffermio restr o flaenoriaethau o ran iechyd a lles anifeiliaid, a bod gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r templedi gofynnol ar gyfer Cysyniad Cyflawni. Eglurodd hefyd fod gan Grŵp Polisi Cyswllt Ffermio gyfarfod ar 20fed Mehefin, a oedd yn gyfle arall i drafod y blaenoriaethau a'r camau nesaf.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Ffyrdd o weithio wrth symud ymlaen**

9. Eglurodd y Cadeirydd mai'r nod ar gyfer hyn a'r eitem nesaf ar yr agenda oedd cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau yn niwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Grŵp yn ddiweddar, a chynnwys yr aelodau newydd yn y trafodaethau hyn wrth symud ymlaen.

10. Eglurodd y Cadeirydd fod y Grŵp wedi adolygu eu cylch gorchwyl yn y diwrnod Cwrdd i Ffwrdd. Y consensws yw nad oes angen diwygio'r Cylch Gorchwyl ar hyn o bryd. Cytunodd y Grŵp y byddent yn ei adolygu'n gyson dros y flwyddyn nesaf. Cytunodd y Grŵp hefyd ar bwysigrwydd cysylltu â grwpiau presennol a rhai newydd sy'n cael eu sefydlu o dan bortffolio'r amgylchedd a materion gwledig.

11. Rhestrodd Carol yr argymhellion yr oedd y Grŵp wedi'u cyflwyno ar y ffyrdd diwygiedig o weithio. Cytunwyd ar y rhain, a bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn eu cynnwys yn y broses o gynllunio cyfarfodydd a ffyrdd o weithio.

***Pwynt Gweithredu 6 > Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn mynd ati i sicrhau bod yr argymhellion a gytunwyd yn y diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yn cael eu rhoi ar waith.***

**Eitem 7 ar yr Agenda: Cyflawni blaenoriaethau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ar gyfer 2017/18**

12. Eglurodd Carol fod gwaith yn mynd rhagddo i lunio Cynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer 2017/18. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, fel rhan o'r broses hon, wedi ystyried y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gweithdai rhanddeiliaid yn gynharach yn y flwyddyn. Bu Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru hefyd yn trafod eu blaenoriaethau yn y diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yn ddiweddar. Eglurodd Carol mai dyma'r blaenoriaethau a gytunwyd ar gyfer 2017/18;

- Cynllunio Iechyd Anifeiliaid
- Ymwrthedd Gwrthlyngyrol
- Ymwrthedd i Gyffuriau
- Bioddiogelwch
- BVD
- Ymgysylltu â'r Sector Lles – Teulu'r Ceffyl ac Anifeiliaid Anwes
- Mwy o Gydweithio a Gwaith Partneriaeth
- Cloffni mewn Defaid
- Y Clafr

13. Cytunodd y Grŵp hefyd ar ddau fater sy'n dod i'r amlwg y byddent yn dechrau eu hystyried dros y 12 mis nesaf;

- Cloffi mewn gwartheg
- Y sector moch

14. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adran “Blaenoriaethau Newydd” yng Nghynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

15. Cytunodd y Grŵp y byddai’r holl waith ymgysylltu – gan gynnwys y sector dofednod, cysylltiadau ag Amaeth Cymru a’r Bwrdd Diwydiant Bwyd, a’r gwaith ynghylch Gadael yr UE – yn dod o dan “Mwy o Gydweithio a Gwaith Partneriaeth”. Cytunodd y Grŵp i gadw “Ymgysylltu â’r Sector Lles” fel blaenoriaeth gan eu bod yn cydnabod yr angen i feithrin cysylltiadau â Chadeirydd newydd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru.

***Pwynt Gweithredu 7 > Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gwahodd Cadeirydd Rhwydwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru i gyfarfod Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ym mis Medi.***

**<u>Eitem 8 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall</u>**

16. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol, a chadarnhaodd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 6$^{ed}$ Medi ym Mharc Cathays.

**CLOI**